Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Emlyn
# Castellnewydd Emlyn
# Sir Gaerfyrddin
# SA38 9LN

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work
Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard
Investors in People | Gold

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2012**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun, cyfrwng Saesneg, 11 i 18 yw Ysgol Gyfun Emlyn, sydd wedi'i lleoli yn nhref Castellnewydd Emlyn ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin.

Mae 639 o ddysgwyr yn yr ysgol ar hyn o bryd, yn cynnwys 114 yn y chweched dosbarth. Yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, mae'r ysgol wedi derbyn 29 o ddisgyblion eraill ac mae 24 o ddisgyblion wedi gadael yn ystod y flwyddyn, sy'n duedd barhaus.

Y gyfran bresennol o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 17.4%, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae tri y cant o'r disgyblion o gefndir ethnig cymysg ac fe gaiff saith disgybl gymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan bump y cant o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.6%.

Gall rhieni ddewis anfon eu plant i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ddynodedig, sef Ysgol Dyffryn Teifi yn Llandysul, Ceredigion. Mae deuddeg y cant o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Fodd bynnag, mae data'r ysgol yn dangos bod 31% o ddisgyblion yn cael eu hystyried yn rhugl yn y Gymraeg. Bydd mwyafrif y disgyblion wedi cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf yn yr ysgolion cynradd partner a'u hasesu mewn Cymraeg mamiaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Addysgir Cymraeg mamiaith i un deg pedwar y cant o ddisgyblion Ysgol Emlyn yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Yng nghyfnod allweddol 3, addysgir dylunio a thechnoleg, hanes, cerddoriaeth, addysg gorfforol, addysg grefyddol a chelf trwy gyfrwng y Gymraeg i un dosbarth o bedwar ym mhob grŵp blwyddyn.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 1997. Gwnaed newidiadau i'r uwch dîm rheoli er Medi 2011, ac ail-ddyrannwyd rolau a chyfrifoldebau strategol. Mae gan yr ysgol un dirprwy bennaeth a dau bennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gyfun Emlyn yn 2011-2012 yw £4,224 y disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin yw £7,322 a'r isafswm yw £4,096. Mae Ysgol Gyfun Emlyn yn y 10fed safle o'r 14 ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da ym mherfformiad presennol yr ysgol yn cynnwys:

- amgylchedd dysgu cadarnhaol mewn gwersi, lle mae disgyblion yn ymroi i'r dysgu'n dda ac yn dyfalbarhau;
- mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- gwelliant mewn presenoldeb, sydd bellach yn cymharu'n ffafriol â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg; a
- chwricwlwm sy'n bodloni angen dysgwyr a chyflogwyr yn dda, gydag ystod dda o weithgareddau allgyrsiol y mae nifer dda yn eu mynychu.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yn anfoddhaol oherwydd:

- er bod rhywfaint o welliant wedi bod yn y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 ymhell islaw'r disgwyliadau ar y cyfan, yn enwedig o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg;
- bod gormod o ddisgyblion nad ydynt yn gwneud digon o gynnydd mewn llythrennedd ac nad ydynt yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn ddigon da i gefnogi eu dysgu;
- mewn mwyafrif o ddosbarthiadau, nid yw'r addysgu yn ystyried anghenion disgyblion o wahanol alluoedd yn ddigon da; ac
- nid oes gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- bod diffyg dull strategol clir a rennir i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol;
- nid oes gan arweinwyr ddarlun cywir o ba mor dda y mae'r ysgol yn perfformio;
- nid yw cynlluniau datblygu yn nodi camau cadarn i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd yr addysgu a datblygiad medrau llythrennedd;
- nid yw rheolwyr canol wedi cael digon o effaith ar godi safonau ac nid ydynt yn cael eu dwyn i gyfrif yn ddigon da gan arweinwyr uwch;
- ni chaiff llywodraethwyr eu cynnwys yn ddigonol mewn hunanarfarnu a chynllunio strategol; ac
- nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad blaenorol.

## Argymhellion

Mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Emlyn:

A1 osod cyfeiriad strategol clir ar gyfer gwella sy'n cael ei rannu gyda rhanddeiliaid allweddol;

A2 codi safonau a gwella perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, gyda ffocws ar wella medrau llythrennedd disgyblion ar bob lefel gallu;

A3 sicrhau dilyniant gwell yng nghyflawniadau disgyblion mewn Cymraeg;

A4 gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu;

A5 gwella trylwyredd a chywirdeb hunanarfarnu i sicrhau bod cynlluniau datblygu yn nodi camau a blaenoriaethau cadarn i wella deilliannau ar gyfer disgyblion;

A6 cryfhau rôl ac atebolrwydd rheolwyr canol, gyda ffocws clir ar godi safonau;

A7 sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion yn llawn; a

A8 gweithio gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Mae perfformiad yr ysgol wedi gwella mewn lleiafrif o ddangosyddion, ond ar y cyfan, mae perfformiad yn parhau i fod gryn dipyn yn is na pherfformiad ysgolion tebyg a chryn dipyn yn is na disgwyliadau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn gyffredinol is na chyfartaleddau Cymru a chyfartaleddau'r teulu o ysgolion mewn Saesneg, Cymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae gwahaniaethau sylweddol ym mherfformiad bechgyn a merched ar y lefelau uwch. Mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol yn llai na'r disgwyl.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 1 yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau Cymru a'r teulu. Fodd bynnag, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 a throthwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg yn parhau i fod gryn dipyn yn is na'r disgwyl. Mae cyflawniadau bechgyn gryn dipyn yn is na chyflawniadau merched ar y cyfan. Mae cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 yn llai na'r disgwyl.

Mae perfformiad yn y chweched dosbarth wedi gwella, ac erbyn hyn mae'n cymharu'n ffafriol â'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda yng nghyfnod allweddol 4, ond mae perfformiad wedi gostwng yng nghyfnod allweddol 3 ac mae ymhell islaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru.

Nid oes unrhyw ddisgyblion pymtheg oed wedi gadael addysg amser llawn heb gymhwyster yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae pawb sydd wedi gadael yr ysgol wedi mynd ymlaen i addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant yn y tair blynedd diwethaf.

Mae meysydd pwysig i'w gwella mewn safonau a'r cynnydd a wna disgyblion mewn mwyafrif o wersi. Nid yw disgyblion o lefelau gallu gwahanol, yn enwedig disgyblion gallu uwch, yn gwneud cynnydd cystal ag y gallent mewn llawer o wersi. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da ar y cyfan.

Bron ym mhob gwers, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar eu hathrawon. Mewn rhai gwersi, mae disgyblion yn gwrando ac yn ymateb yn briodol i gyfraniadau ei gilydd hefyd. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos parodrwydd i gyfrannu ar lafar, ac maent yn ymateb yn aeddfed i gwestiynau athrawon. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth ymateb yn estynedig, ac wrth gyfnewid a chyfiawnhau eu safbwyntiau i ddatblygu eu meddwl. Mewn gwersi Cymraeg mamiaith ac wrth ddysgu Cymraeg mewn pynciau eraill, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth siarad yn y dosbarth o ran hyd a chywirdeb eu cyfraniadau.

O roi’r cyfle iddynt mewn gwersi, mae disgyblion yn dangos y gallu i ddarllen darnau byr o destun yn ystyrlon ar goedd. Fodd bynnag, ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, mae cyflawniad mewn darllen mewn Saesneg ac mewn Cymraeg mamiaith ymhell islaw cyflawniad disgyblion mewn ysgolion tebyg. Nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig wrth ddarllen ar draws cyfnod allweddol 3. Mae dadansoddiadau o berfformiad disgyblion mewn profion safonedig yn dangos bod lefel medrau darllen tua hanner y disgyblion ar ddechrau Blwyddyn 9 yn parhau i fod gryn dipyn islaw’r disgwyliadau. Mae hyn yn achos pryder mawr. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, gall disgyblion gasglu a defnyddio gwybodaeth yn briodol o ystod o ffynonellau, ond nid yw llawer o ddisgyblion mwy abl yn datblygu ystod o fedrau darllen mwy heriol.

Mewn ysgrifennu, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyson mewn Saesneg ar y cyfan yn eu gallu i ysgrifennu’n estynedig at wahanol ddibenion. Fodd bynnag, ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, mae cyflawniadau mewn ysgrifennu mewn Saesneg a Chymraeg mamiaith gryn dipyn yn is nag ydynt mewn ysgolion eraill tebyg. Mewn rhai o’r pynciau eraill, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu yn briodol i gefnogi eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth, a datblygu eu gallu i ddefnyddio terminoleg bynciol. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae gormod o anghysondeb yn y cynnydd a wna disgyblion wrth ysgrifennu’n fwy estynedig a gyda chywirdeb cynyddol. Mae disgyblion yn defnyddio medrau ailddrafftio’n briodol i wella eu gwaith mewn Saesneg, ond nid ydynt yn datblygu a gwella ansawdd eu gwaith ysgrifenedig yn rheolaidd mewn pynciau eraill.

Mewn Cymraeg mamiaith ac ail iaith, mae tuedd barhaus o berfformiad sydd ymhell islaw’r cyfartaleddau cenedlaethol a pherfformiad ysgolion tebyg yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 fel ei gilydd. Mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg ac maent yn awyddus i lwyddo. Fodd bynnag, nid yw’r mwyafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn adeiladu’n ddigon da ar eu cyflawniadau blaenorol mewn Cymraeg.

**Lles: Da**

Mae gan yr ysgol ymdeimlad cryf o gymuned. Dywed bron pob un o’r disgyblion eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn teimlo’n hyderus bod yr ysgol yn helpu i ddatrys bwlio yn effeithiol bob amser.

Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at fwyta a byw yn iach. Mae lefelau cyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau chwaraeon yn uchel ar y cyfan.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda o amgylch yr ysgol ac mewn gwersi. Nid yw rhai disgyblion yn canolbwyntio’n llawn mewn gwersi, ac maent yn achosi aflonyddwch ar lefel isel. Nid oes yr un disgybl wedi cael ei wahardd yn barhaol o’r ysgol yn y tair blynedd diwethaf, ac mae nifer y disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd o’r ysgol am gyfnod penodol yn isel.

Mae presenoldeb disgyblion wedi gwella o dri phwynt canran dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2011, roedd presenoldeb yn agos at y 25% uchaf o gymharu â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae presenoldeb disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i fod gryn dipyn yn is na phresenoldeb

y disgyblion hyn mewn ysgolion tebyg.

Mae’r cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn trafod ystod eang o faterion gydag aeddfedrwydd. Mae’n darparu adroddiadau addysgiadol ar gyfer y corff llywodraethol a’r pwyllgor addysgu a dysgu ar faterion, ac yn cyflwyno syniadau defnyddiol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i gyfleu eu safbwyntiau wrth y cyngor ysgol, ond ni chânt wybod yn ddigonol am ganlyniadau trafodaethau.

Mae disgyblion yn dangos parch at ei gilydd ac at staff, ac maent yn ymroi yn dda i ddysgu. Maent yn ymateb yn aeddfed i gyfleoedd i weithio gyda’i gilydd mewn parau a grwpiau bach. Maent yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol ac mae niferoedd uchel ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy’n eu paratoi’n dda ar gyfer cyfranogiad cymunedol y tu hwnt i’r ysgol. Mae myfyrwyr y chweched dosbarth yn cynorthwyo disgyblion iau i ddarllen ac yn gwirfoddoli i helpu yn nigwyddiadau’r ysgol, fel nosweithiau agored a nosweithiau rhieni.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae’r cwricwlwm yn bodloni anghenion disgyblion a chyflogwyr yn dda. Mae’r ysgol yn cynnig ystod dda o opsiynau ar y cyd â darparwyr eraill i ddysgwyr rhwng 14 ac 19. Mae diwrnodau rheolaidd i gyfoethogi’r cwricwlwm yn nodwedd dda ar y ddarpariaeth ac mae nifer dda o ddisgyblion yn cymryd rhan yng Ngwobr Dug Caeredin. Mae’r ysgol yn cynnig ystod dda o gyfleoedd allgyrsiol mewn meysydd fel chwaraeon, peirianneg, cerddoriaeth a drama.

Mae’r ysgol yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion gael achrediad mewn medrau hanfodol. Mae’r rhan fwyaf o adrannau pwnc yn nodi’r medrau perthnasol yn eu cynlluniau gwaith. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio ysgol-gyfan ar gyfer dilyniant mewn medrau wedi’i ddatblygu’n ddigonol. Mae hwn yn faes pwysig i’w ddatblygu mewn codi safonau a gwella’r cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi. Mae gormod o amrywiad yn y cyfleoedd a gaiff disgyblion i ddefnyddio a gwella eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Mae hyn hefyd mewn perthynas â helpu disgyblion i wella sillafu, atalnodi a gramadeg. Mae’r cynllun gweithredu llythrennedd a luniwyd yn ddiweddar yn nodi ystod o gynigion gwerth chweil mewn perthynas â mynd i’r afael â materion yn y ddarpariaeth bresennol ar gyfer llythrennedd ar sail ysgol-gyfan.

Rhoddir cyfleoedd addas i ddisgyblion mewn un dosbarth yng nghyfnod allweddol 3 ddilyn y cwrs Cymraeg mamiaith a pharhau â dysgu cyfrwng Cymraeg mewn pynciau eraill. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn cynllunio’n ddigon da i sicrhau parhad a dilyniant ym medrau Cymraeg yr holl ddisgyblion yn y cyfnod pontio o’r ysgolion cynradd sy’n bwydo ac yng nghyfnod allweddol 4. Gwelir arfer dda mewn lleiafrif o wersi o ran gwneud defnydd achlysurol o’r Gymraeg gyda disgyblion sy’n dysgu trwy gyfrwng y Saesneg. Yng nghyfnod allweddol 4, addysgir Cymraeg i bron bob disgybl, ac, mewn Cymraeg ail iaith, caiff pob un o’r disgyblion eu cofrestru ar gyfer y cwrs TGAU llawn. Mae’r rhain yn nodweddion cryf.

Mae llawer o bynciau’n cynllunio’n briodol ar gyfer hyrwyddo’r dimensiwn Cymreig

ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion, ond mae hwn yn faes i'w ddatblygu ymhellach.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae darpariaeth wedi cael ei mapio a chaiff ei hymgorffori mewn cynlluniau gwaith pynciau.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rheoli ymddygiad yn effeithiol, ac mae ganddynt berthynas dda gyda disgyblion. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth bynciol yn dda ac yn darparu modelau iaith da ar gyfer disgyblion. Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio eu gwersi'n briodol i gynnwys dilyniant o weithgareddau dysgu sy'n helpu disgyblion i weithio'n gynhyrchiol mewn gwersi. Yn y dosbarthiadau hyn, mae gwersi'n cynnwys amcanion dysgu clir i fodloni anghenion disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd cystal ag y gallent oherwydd her annigonol, yn enwedig i ddisgyblion gallu uwch. Mewn ychydig iawn o wersi, mae disgyblion yn treulio gormod o amser ar dasgau nad ydynt yn heriol, nac yn ychwanegu rhyw lawer at eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.

Mae mwyafrif o athrawon yn marcio gwaith yn rheolaidd ac yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig yn amrywio gormod rhwng adrannau ac o fewn adrannau, ac yn aml, nid yw hyn yn rhoi syniad clir o sut i wella'u gwaith. Lleiafrif o athrawon yn unig sy'n annog disgyblion i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Datblygwyd system i olrhain cynnydd disgyblion yn ddiweddar i nodi'r rhai sy'n tangyflawni ac i fonitro eu cynnydd. Fodd bynnag, ni chaiff y system ei defnyddio'n gyson i roi syniad clir i ddisgyblion o'u targedau personol ar gyfer gwella.

Mae'r ysgol wedi gwneud trefniadau priodol i adrodd i rieni yn rheolaidd. Mae adroddiadau tymhorol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Mae gan yr ysgol system fugeiliol drefnus, sy'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn effeithiol. Mae'r cwricwlwm, sesiynau tiwtorial a'r rhaglen gwasanaethau yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae siaradwyr o amrywiaeth o sefydliadau, fel yr heddlu a'r gwasanaeth tân, yn helpu i godi ymwybyddiaeth disgyblion am faterion diogelwch personol.

Mae'r ysgol yn rhoi cyngor cadarn i ddisgyblion am ddewis opsiynau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, ac yn gwneud addasiadau, lle bo modd, i fodloni dewisiadau disgyblion. Mae'r rhaglen gynhwysfawr ar gyfer addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd ac addysg sy'n gysylltiedig â gwaith yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi cymorth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn cynnwys asiantaethau eraill yn briodol. Caiff y disgyblion hyn gyfleoedd addas i ddysgu mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae'r ysgol wedi paratoi deunyddiau addas i gefnogi datblygiad disgyblion unigol mewn darllen. Mae rhai disgyblion chweched

dosbarth yn gweithredu fel ‘cyfeillion’ darllen ac yn rhoi cyfleoedd ychwanegol gwerth chweil i ddisgyblion sydd â’r medrau llythrennedd gwannaf wella’u darllen. Mae rhaglenni addas i dynnu disgyblion allan o wersi yn cynnig cymorth priodol i ddisgyblion sydd â’r medrau llythrennedd gwannaf. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn gwneud digon i helpu disgyblion eraill a fyddai’n elwa o gymorth ychwanegol i wella eu medrau llythrennedd.

Nid oes gan yr ysgol bolisi priodol ar gyfer diogelu. Nid yw’r gweithdrefnau ar gyfer delio â diogelu wedi cael eu datblygu’n llawn.

Mae’r mynediad rhydd i adeiladau ar safle’r ysgol o bosibl yn peryglu diogelwch disgyblion. Mae’r ysgol wedi cynnal asesiad risg o beryglon ar safle’r ysgol, ond nid yw’r camau a gymerwyd i leihau’r risg yn ddigon cadarn, yn enwedig mewn perthynas â hwyluso’r mynediad i adeiladau’r ysgol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol lle mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn eu parchu. Mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gweithdrefnau addas ar gyfer delio ag achosion o ymddygiad gwael a disgyblu.

Mae’r adeiladau’n briodol ar y cyfan, ac yn cael eu cynnal yn dda. Maent wedi cael eu gwella’n ddiweddar gan set newydd o ystafelloedd ar gyfer pynciau’r celfyddydau creadigol. Fodd bynnag, mae cyflwr y blociau toiledau yn yr hen adeilad yn annerbyniol ac mae angen adnewyddu’r ystafelloedd newid ar gyfer addysg gorfforol. Caiff disgyblion ag anableddau corfforol fynediad cyfartal i bob rhan o adeiladau’r ysgol. Mae’r adeiladau’n cynnig amgylchedd dysgu pleserus ar y cyfan.

Mae digon o adnoddau ar gael i ddisgyblion i gefnogi eu dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

At ei gilydd, nid yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth wedi bod yn ddigon effeithiol wrth wella darpariaeth a chodi safonau.

Mae ychwanegu aelodau newydd at yr uwch dîm rheoli wedi rhoi ffocws gwell i waith uwch arweinwyr. Mae’r tîm yn dechrau mynd i’r afael â blaenoriaethau allweddol fel defnyddio data perfformiad, sefydlu trefniadau hunanarfarnu mwy systematig a gwella safonau llythrennedd. Yn gyffredinol, mae rolau a chyfrifoldebau ar bob lefel wedi’u diffinio’n briodol. Fodd bynnag, nid yw’r pennaeth a’r uwch dîm arweinyddiaeth wedi llwyddo i gyfleu gweledigaeth am ddatblygu’r ysgol yn y dyfodol, codi dyheadau, a meithrin synnwyr cyffredin o ddiben a chyfeiriad. Mae gormod o anghysondeb yn y ffordd y mae staff yn rhoi polisïau a mentrau ar waith.

Mae gormod o anghysondeb yn ansawdd yr arweinyddiaeth strategol a ddarperir gan reolwyr canol. Mewn llawer o achosion, nid yw eu gwaith wedi cael digon o effaith ar godi safonau. Ni chynhelir cyfarfodydd adrannol yn rheolaidd, ac yn gyffredinol, nid ydynt yn cynnwys mynd i’r afael â materion strategol sy’n arwain at gamau cytûn, fel gwella ansawdd yr addysgu a’r dysgu.

Nid yw trefniadau rheoli llinell wedi sicrhau atebolrwydd addas ac nid ydynt wedi bod yn effeithiol yn nodi a mynd i'r afael â thanberfformio. Nid yw targedau rheoli perfformiad yn cynnwys her ddigonol, ac nid ydynt wedi'u cysylltu digon â gwella deilliannau disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn datblygu ei rôl yn addas fel ffrind beirniadol. Mae'n gynyddol wybodus yn sgil cyfle gwell i weld ystod eang o ddata perfformiad. Mae rhai aelodau o'r corff llywodraethol yn sefydlu cysylltiadau buddiol ag adrannau pwnc hefyd. O ganlyniad, mae llywodraethwyr yn cynnig her fwy cadarn i berfformiad yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r corff llywodraethol wedi cael ei gynnwys yn ddigonol mewn llunio hunanarfarniad yr ysgol a chynllunio strategol. Nid yw wedi sicrhau bod gofynion cyfreithiol yn ymwneud â diogelu wedi cael eu bodloni.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol wrth weithio'n helaeth â darparwyr eraill yn Sir Gaerfyrddin a thu hwnt i ddarparu ystod ehangach o lwybrau dysgu i ddysgwyr rhwng 14 ac 19. Fodd bynnag, ni fu'n ddigon effeithiol yn gwella safonau, yn enwedig llythrennedd a lleihau'r bwlch rhwng perfformiad merched a bechgyn. Ni chyflawnwyd digon i sicrhau parhad a dilyniant yn y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg o ran adeiladu ar brofiadau blaenorol disgyblion.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Cryfhawyd trefniadau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn y blynyddoedd diwethaf. Maent wedi mynd yn fwy systematig ac yn nodwedd reolaidd o fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn nodi meysydd i'w datblygu'n gywir, ac nid yw cynlluniau gwella wedi cael digon o effaith ar godi safonau.

Mae gweithdrefnau addas ar gyfer cael safbwyntiau ystod eang o randdeiliaid, yn cynnwys disgyblion a rhieni, am waith yr ysgol. Mae uwch reolwyr yn cynnal adolygiadau adrannol blynyddol sy'n cynnwys arsylwadau gwersi rheolaidd a chraffu ar waith disgyblion. Fodd bynnag, yn aml, nid yw arsylwadau gwersi'n ddigon trylwyr ac nid ydynt yn nodi gwendidau'n glir yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gryno ac yn cwmpasu pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae'n arfarnol ar y cyfan ac yn nodi cryfderau yn ogystal â meysydd i'w gwella. Mae adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn dilyn patrwm cyson ac, ar y cyfan, yn rhoi crynodeb defnyddiol o gryfderau a meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad ysgol gyfan na'r adroddiadau adrannol yn ystyried ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn gadarn yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae amcanion yn cyfateb yn briodol mewn cynlluniau gwella â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd trwy hunanarfarnu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr a rheolwyr wedi blaenoriaethu'r agweddau hynny y maent yn dymuno'u gwella yn ddigon clir. Yn gyffredinol, nid yw cynlluniau'n cynnwys camau diffiniedig gyda thargedau penodol a meini prawf llwyddo mesuradwy. Nid yw'r rhan fwyaf o gynlluniau yn nodi cerrig milltir a graddfeydd amser addas i helpu arfarnu cynnydd wrth roi cynigion ar waith, a'u heffaith.

Mae athrawon yn gwneud defnydd cynyddol o arsylwi cymheiriaid, er nad yw hyn yn

digwydd yn eang. Mae pob un o'r staff yn cymryd rhan mewn mentrau sydd â'r nod o fynd i'r afael â meysydd i'w datblygu, ac mae aelodau o staff yr ysgol wedi ymweld ag ysgolion eraill yn ei theulu i elwa o achosion o arfer dda. Nid yw strategaethau i hyrwyddo arfer orau, yn enwedig i wella medrau llythrennedd disgyblion, wedi cael effaith eang na sylweddol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad arolygu diwethaf, yn enwedig ym meysydd allweddol codi safonau, darpariaeth ar gyfer llythrennedd a hunanarfarnu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau sy'n gwella'r ddarpariaeth mewn nifer o feysydd. Trwy gydweithio ag ysgol uwchradd a choleg mewn awdurdod cyfagos, gall yr ysgol gynnig ystod briodol o eang o opsiynau i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae wedi nodi llywodraethu a sicrhau ansawdd o fewn y bartneriaeth fel agweddau i'w gwella, ac mae wedi dechrau rhoi gweithdrefnau ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn wedi arwain at wella safonau yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'i phedair ysgol gynradd bartner yn Sir Gaerfyrddin i hwyluso cyfnod pontio didrafferth i ddisgyblion. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys trosglwyddo gwybodaeth berthnasol a safoni asesiadau athrawon yn y pynciau craidd. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer parhad cwricwlaidd ar draws pynciau wedi'i ddatblygu cystal.

Daw tua hanner o ddisgyblion yr ysgol o ysgolion cynradd mewn awdurdodau cyfagos, ac nid yw'r disgyblion hyn yn elwa ar yr ystod lawn o weithgareddau pontio. Er enghraifft, nid yw'r ysgol yn cael digon o wybodaeth am gyflawniadau blaenorol disgyblion mewn Cymraeg i gynllunio'n effeithiol ar gyfer parhad a dilyniant.

Mae cyfarfodydd rhieni, a gynhelir yn flynyddol ar gyfer pob grŵp blwyddyn, yn cynnig cyfleoedd addas i rieni drafod cynnydd eu plant. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gwneud trefniadau addas yn gyson i roi gwybod i rieni ac ymgynghori â nhw am ddatblygiadau newydd ac agweddau penodol ar ei gwaith.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda chyflogwyr lleol i ddarparu ystod o brofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer disgyblion. Mae hefyd wedi sefydlu cysylltiadau cynhyrchiol gyda nifer o ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Mae ei phartneriaeth gyda Chanolfan Confucius ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant yn gwella'r ffordd y caiff Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ei gyflwyno.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol i gyflwyno'r cwricwlwm, gyda dim ond ychydig iawn o wersi'n cael eu haddysgu gan athrawon nad ydynt yn arbenigwyr pwnc. Mae'r ysgol yn sicrhau bod hyfforddiant addas i staff i fodloni eu hanghenion datblygiad proffesiynol. Darparwyd dosbarthiadau Cymraeg ar ôl yr ysgol ar gyfer staff sy'n dymuno magu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, a sefydlwyd grŵp cynrychiolwyr o staff yr ysgol i wella ethos Cymreig yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi gosod diffyg yn ei chyllideb yn y naill a'r llall o'r ddwy flynedd ddiwethaf ac yn rhagweld diffyg sylweddol yn y gyllideb ar gyfer 2012-2013. Mae wedi nodi nifer o feysydd lle gellir gwneud arbedion, ond nid oes cynllun ffurfiol wedi cael ei lunio eto i fynd i'r afael â'r broblem hon. Mae rhai strategaethau sydd ar waith ar hyn o bryd, fel darpariaeth gydweithredol ar gyfer dysgwyr 14-19, yn ddefnyddiol wrth leihau costau. Fodd bynnag, mae dosbarthiadau chweched dosbarth bach mewn nifer o bynciau yn llai cost effeithiol.

O ystyried y safonau anfoddhaol, mae'r ysgol yn darparu gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, bu tuedd glir o welliant dros y tair blynedd diwethaf yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5) yn y dangosydd pwnc craidd. Fodd bynnag, mae perfformiad yn parhau i fod gryn dipyn is na chyfartaledd y teulu a'r disgwyliadau. Mae perfformiad mewn Saesneg, Cymraeg mamiaith a gwyddoniaeth yn y blynyddoedd diwethaf wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion eraill y mae gan lefelau tebyg o'u disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch yn y dangosydd pwnc craidd yn is na chyfartaleddau Cymru a chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg ar y cyfan. Mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol yn llai na'r disgwyl.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd islaw ffigur Cymru, ac yn enwedig ffigur y teulu. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi gwella ac mae nawr yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau Cymru a'r teulu, yn yr un modd â'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio. Fodd bynnag, mae trothwy lefel 2 a throthwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg wedi bod gryn dipyn yn is na chyfartaleddau Cymru a'r teulu dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2011, roedd trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg yn is na'r disgwyliadau a hwn oedd yr isaf yn y teulu. Mewn Saesneg, mae perfformiad ar lefel 1 ac ar lefel 2 wedi bod gryn dipyn yn is na chyfartaleddau'r teulu dros y pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad ar lefel 1 mewn mathemateg wedi gwella ac mae'n debyg i gyfartaledd y teulu, ond ar lefel 2, bu'n is na chyfartaledd Cymru ac yn enwedig cyfartaledd y teulu, mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf. Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad ar lefel 2 yn debyg i gyfartaledd Cymru ond gryn dipyn yn is na chyfartaledd y teulu.

O gymharu â pherfformiad ysgolion sydd â lefelau tebyg o brydau ysgol am ddim, mae perfformiad wedi amrywio dros y pum mlynedd diwethaf mewn llawer o ddangosyddion, ond wedi bod yn y 50% is yn nhrothwy lefel 2, mewn Saesneg ac mewn Cymraeg mamiaith yn y tair blynedd diwethaf. O ystyried eu cyflawniadau yn 11 oed, nid oes digon o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig erbyn diwedd cyfnod allweddol 4.

Nid oes unrhyw ddysgwyr pymtheg oed wedi gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae pawb sydd wedi gadael yr ysgol wedi mynd ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant yn y tair blynedd diwethaf.

Yn y chweched dosbarth, bu tuedd ar i fyny, ac mae perfformiad yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau Cymru erbyn hyn.

Yng nghyfnod allweddol 3, nid oes bwlch sylweddol rhwng cyfrannau'r bechgyn a'r merched sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig. Fodd bynnag, ar lefel 6, mae bechgyn yn perfformio gryn dipyn yn uwch na merched mewn gwyddoniaeth ac mewn mathemateg. Mewn Cymraeg mamiaith, mae merched yn perfformio bron i 40 pwynt

canran yn well na bechgyn. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad merched gryn dipyn yn uwch na pherfformiad bechgyn yn y dangosydd pwnc craidd, trothwy lefel 2, trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg, Cymraeg mamiaith a mathemateg, ac mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl iddynt wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad y disgyblion hyn fel grŵp ymhell islaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru erbyn hyn. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella ac yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau'r teulu a Chymru.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Holiadur i ddysgwyr

Cafodd Estyn ymatebion gan 215 o ddisgyblion a ddewiswyd ar hap ar draws yr ystod oedran.

Mae canrannau'r ymatebion cadarnhaol yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion uwchradd, neu'n uwch.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cytuno eu bod:

- yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol; ac
- yn cael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a chymryd cyfrifoldeb.

Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion:

- fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a bod rhywun y gallant siarad ag ef/â hi os ydynt yn poeni;
- bod staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn eu parchu, ac yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill;
- bod digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, ac yn eu helpu pan fydd ganddynt broblemau; a
- bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer eu hysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau eu bywyd gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn cytuno bod:

- yr ysgol yn eu haddysgu ynglŷn â sut i gadw'n iach a bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith (mae mwyafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn dweud hyn);

- bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer, yn cynnwys cyfrifiaduron, i wneud eu gwaith;
- bod yr ysgol yn gwrando'n dda ar eu safbwyntiau ac yn gwneud newidiadau y maent yn eu hawgrymu (mae lleiafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn dweud hyn); a'u
- bod wedi cael cyngor da wrth ddewis eu cyrsiau ar gyfer cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

**Holiadur i rieni**

Cafodd Estyn 49 o ymatebion i'r holiadur i rieni.

Mewn tua thraean o'r cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn yr holiadur, roedd cyfran yr ymatebion cadarnhaol gan rieni gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Dywed y rhan fwyaf o rieni eu bod yn fodlon â'r ysgol a bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da.  Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dweud bod yr addysgu'n dda hefyd.  Dywed llawer o rieni fod staff yn trin plant yn deg ac yn eu parchu, a bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.  Dywed y rhan fwyaf o rieni fod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn annog eu plant i fod yn iach.  Dywed llawer o rieni fod eu plant yn cael cymorth priodol ar gyfer unrhyw anghenion unigol a'u bod yn wybodus am gynnydd eu plant.  Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo'n gyfforddus yn mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.  Dywed mwyafrif y rhieni eu bod yn deall gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion.  Dywed llawer ohonynt fod ystod dda o weithgareddau, yn cynnwys gwibdeithiau, a bod yr ysgol yn paratoi eu plant yn dda ar gyfer symud i'r ysgol nesaf neu'r coleg, neu waith.  Dywed llawer o rieni fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iolo Dafydd AEM | Arolygydd Cofnodol |
| John Thomas AEM | Arolygydd Tîm |
| Penny Lewis AEM | Arolygydd Tîm |
| Kevin Adams | Arolygydd Tîm |
| Julie Price | Arolygydd Lleyg |
| Catrin Taylor | Arolygydd Cymheiriaid |
| Hugh Thomas | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol.  Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.  Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati.  Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion<br><br>tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |